



ffeithiau

Rheoli Safleoedd Rhandiroedd Pecyn Cymorth: Iechyd a diogelwch ar safleoedd rhandiroedd

Rhagarweiniad

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu pecyn o adnoddau i helpu sicrhau fod awdurdodau lleol ac eraill sy'n gysylltiedig â rheoli safleoedd rhandiroedd yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar botensial y safleoedd ar gyfer y boblogaeth leol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae FfaGC Cymru wedi llunio dogfen cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol, tyfwyr a grwpiau tyfu yng Nghymru sy'n cynnwys trosolwg o ran rheoli safleoedd rhandiroedd.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn un o gyfres sy'n rhoi mwy o fanylion ar y pynciau amrywiol sy'n rhan o'r Cyfarwyddyd.

Yn ogystal mae'r pecyn cymorth yn cynnwys amrediad o ddogfennau tenantiaeth enghreifftiol a a thempledi dogfennau cyfreithiol eraill i gynorthwyo gyda rheoli safle.

Gellir lawrlwytho'r holl adnoddau hyn o:

www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit

Ynglŷn â'r daflen ffeithiau hon

Nod y daflen ffeithiau hon yw cynnig trosolwg o'r camau i'w cymryd i sicrhau fod safle eich rhandiroedd mor ddiogel â phosib i bawb sy'n ei ddefnyddio. Mae'n cynnwys yr adrannau canlynol:

- Hanfodion Asesiadau Risg
- Cyngor ar weithgareddau lle mae angen trefniadau rheoli arbennig
- Adnoddau – manylion sefydliadau a chyhoeddiadau y cyfeirir atynt yn y daflen ffeithiau hon.

Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r dogfennau canlynol sydd hefyd ar gael i'w lawrlwytho o'r ddolen uchod:

- Rhestr wirio peryglon ar y safle
- Yswiriant
- Enghraifft o ffurflen asesu risg.



Cyflwyniad

O dan gyfraith sifil, mae gan unrhyw un sy'n rhan o reoli safle rhandiroedd ddyletswydd gofal cyffredin i sicrhau y caiff y safle ei redeg mewn ffordd mor ddiogel a phriodol â phosib, yn unol â Deddf Atebolrwydd Meddianwyr, 1957 (fel y'i diwygiwyd yn 2005 i ystyried Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy).

Mae'r ddyletswydd gofal yma'n ymestyn i bawb sy'n defnyddio'r safle a'i ffiniau, gan gynnwys staff, gwirfoddolwyr, aelodau'r cyhoedd, ymwelwyr dilys a thresmaswyr. Hefyd mae angen cydymffurfio â deddfau amgylcheddol a hwsmonaeth.

Mae cynnal asesiadau risg yn weddol rwydd. Bydd materion iechyd a diogelwch ond yn anodd eu rheoli os caiff cyfrifoldebau eu hesgeuluso.

Mae angen i bawb fod o ddifrif ynghylch iechyd a diogelwch, ond hefyd mae'n bwysig peidio bod yn 'baranoig am y gyfraith'. Mae elfen o risg ynghlwm wrth unrhyw weithgaredd, ac nid yw garddio ar randir yn eithriad i hynny.

Noder: nid yw cynnwys y canllawiau hyn yn cynnig cyngor cyfreithiol penodol, ac mae rhoi cyngor ar weithgareddau garddio unigol tu hwnt i gwmpas y canllawiau hyn.

Peidiwch byth â chymryd yn ganiataol beth yw eich cyfrifoldebau. Os oes unrhyw amheuaeth, gofynnwch am gyngor cyfreithiol. Mae rhai cyfreithwyr yn gweithio ar sail pro bono (am ddim).

Hanfodion asesiadau risg

Fframwaith syml yw asesiad risg, sy'n caniatáu ichi adnabod risgiau, asesu pa mor ddifrifol ydynt, a llunio strategaeth i ddelio gyda nhw. Mewn achosion prin o unigolyn a anafwyd yn dwyn achos cyfreithiol, gall cofnod ysgrifenedig o asesiad risg a chofnod o'r camau a gymerwyd i leihau risgiau, fod o arwyddocâd mawr.

Pwy sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau risg?

Mae penodi ymgynghorydd asesu risg proffesiynol tu hwnt i gyllidebau'r rhan fwyaf o sefydliadau. Y sefydliad sy'n gyfrifol am ddyletswyddau rheoli uniongyrchol ar gyfer safle rhandiroedd sydd yn y sefyllfa orau i gynnal asesiad risg.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng perygl a risg?

Mae terminoleg yn gallu bod yn heriol, ond nid yw asesiadau risg yn anodd eu deall. Cyn cychwyn, mae'n ddefnyddiol gwybod y gwahaniaeth rhwng perygl a risg.

Perygl yw rhywbeth sydd â'r potensial i achosi niwed. Mae'r potensial wastad yn bodoli e.e. bydd potensial i goelcerth ledu ac achosi niwed, a gall gwreichion o'r tân losgi pobl neu anifeiliaid.

Mae risg yn golygu bod tebygolrwydd y bydd niwed sy'n deillio o berygl penodol yn digwydd e.e. bydd coelcerth wastad yn beryglus, ond mor bell â'i fod yn ddigon pell o eiddo, ac y llosgir deunyddiau priodol yn unig, bod dull o'i ddiffodd yn barod gerllaw, ac y cedwir anifeiliaid ddigon pell i ffwrdd, mae'r risg wirioneddol o'r perygl dal yn isel. Bydd y risg yn cynyddu os anwybyddir y camau diogelwch hyn.

Dileu risg

Yr allwedd i asesu risg, yw dileu'r risg yn gyfan gwbl, neu ei leihau i lefel dderbyniol. Diffinnir lefelau lleihau trwy'r system graddio yn yr asesiad risg. Gyda chyllideb fach, fel arfer mae lleihau risg yn fwy cyraeddadwy na dileu'r risgiau'n gyfan gwbl.

Pa mor aml dylid cynnal asesiad risg?

Dylid cynnal asesiadau risg o leiaf dwywaith y flwyddyn, a phryd bynnag y bydd amgylchiadau'n newid yn sylweddol e.e. newidiadau i gynllun y safle, gosod cyfleusterau newydd ar y safle. Gall peryglon ar y ddaear e.e. gwydr a dorrwyd, cael eu cuddio gan chwyn a glaswellt yn

ystod yr haf, felly dylid cynnal un o'r asesiadau risg yn ystod y gaeaf.

Pwy sy'n cynnal yr asesiad risg?

Yn aml, bydd gan bobl syniadau gwahanol am risg, felly dylai o leiaf dau (mwy yn ddelfrydol) o bobl gyfrannu ato. Dylai'r unigolion hyn deimlo'n hyderus ac yn gallu delio gydag asesiad risg heb gynhyrfu. Ceisiwch gynnwys unigolyn allanol profiadol hefyd e.e. aelod o'r pwyllgor. Gall rhywun sy'n edrych ar y sefyllfa o'r newydd weld risgiau nas gwelwyd gan bobl sy'n gyfarwydd gyda'r safle.

Ar ôl astudio cynnwys y canllawiau hyn, a chynnal asesiad treial, gyda lwc, byddwch yn teimlo'n fwy hyderus am gynnal asesiad risg. Os nad ydych, gallwch ddarllen mwy am y pwnc neu ofyn am gyngor gan rywun sydd wedi cael profiad o asesiadau risg. Os nad yw hynny'n helpu, gweler yr 'Awgrymiadau Hyfforddi' (isod).

Awgrymiadau hyfforddi

Hwyrach y bydd cangen leol yr Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr, sydd yn elusen ym maes cadwraeth, yn gallu trefnu hyfforddiant. Dylid egluro eich anghenion hyfforddi mewn da bryd, oherwydd mae eu cyrsiau hyfforddi safonol yn benodol i waith prosiect ym maes cadwraeth.

Hwyrach y bydd eich Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Lleol (CGG) yn gallu awgrymu darparwyr hyfforddi eraill neu'n gallu trefnu hyfforddiant addas. Gofalwch fod unrhyw gwrs yn benodol i weithio yn yr awyr agored, yn lle iechyd a diogelwch a seilir yn y gweithle neu mewn swyddfa.

Gall cyrsiau hyfforddi eraill gostio hyd at £150 y pen ar gyfer cyfranogwyr, neu gyfanswm o ryw £500 ar gyfer cwrs pwrpasol. Gellir ystyried rhannu'r gost trwy hysbysebu'r cwrs ymhlith prosiectau lleol eraill sydd am fynychu efallai.

Hwyrach y bydd eich cyngor yn gallu helpu gyda chyllid: gofynnwch i'r

swyddog iechyd a diogelwch/iechyd yr amgylchedd, neu'r swyddog hyfforddi/datblygu cymunedol os mae'r cyngor yn cyflogi'r swyddogion hyn. Hefyd, hwyrach y byddant yn rhoi cyngor ar ddarparwyr hyfforddiant, neu os oes digon o alw, trefnu cwrs yn fewnol.

Cynnal asesiad risg

Nid yw'n bosib cynnal asesiad risg o'r cof: mae'n rhaid ei gynnal o'r newydd ar y safle – defnyddiwch y ffurflen asesu risg a'r rhestr wirio ar gyfer peryglon a gyfeirir atynt yn y cyflwyniad i'r daflen ffeithiau hon. Dylai pob aseswr wisgo esgidiau cadarn. Ac os ydych yn asesu strwythurau, cofiwch wisgo het galed.

Asesu'r safle cyfan mewn ffordd drefnus

Walk around the external boundary, enter through the front gate and work your way around the internal boundary and all accessible areas. As you go, tick off the items on the 'Site Hazards Checklist' referred to above.

Cofnodi'r canlyniadau ar y ffurflen asesu risg

Bydd angen cyfrifo graddfa'r risg a chofnodi'r camau lliniaru a argymhellir er mwyn dileu neu leihau'r risg. Peidiwch â dibynnu ar eich cof ar gyfer y canlyniadau, na dibynnu ar unigolyn i gofnodi'r canlyniadau. Dylech wneud digon o nodiadau clir i allu adrodd yn ôl i'r tîm rheoli.

Canolbwyntio ar agweddau arwyddocaol

Mae mwy o arwyddocâd ynghlwm wrth rai risgiau nag eraill: mae gadael coelcerth i 'losgi allan' ar ddiwedd y dydd yn fwy o risg na chadw offer miniog mewn ffordd ddiogel. Bydd angen dysgu adnabod y gwahaniaeth rhwng risgiau arwyddocaol a mân risgiau, a chaniatáu amser i ddelio gyda'r rhain yn briodol.

Ystyried plant a phobl agored i niwed

Byddwch yn ymwybodol nad oes gan rai pobl unrhyw ganfyddiad o risg neu ychydig iawn, yn enwedig plant ac oedolion agored i niwed (e.e. pobl ag anawsterau dysgu). Wrth chwilio am risgiau, dylid ystyried a fyddai mwy o risg i blentyn neu oedolyn agored i niwed oherwydd perygl, na rhywun fydd yn hollol ymwybodol o'r risg. Peidiwch â chynhyrfu: mae addysgu plant am risgiau mewn amgylchfyd a reolir yn fwy defnyddiol na cheisio dileu pob risg. Byddant yn ymwybodol o risgiau, ac yn ymateb mewn ffordd briodol i risgiau wrth ddod ar eu traws yn ddiweddarach.

Pwy sy'n gyfrifol am gamau lliniaru?

Dylech benderfynu pwy sy'n gyfrifol am gyflawni unrhyw gamau lliniaru ar gyfer pob risg a nodwyd.

Hwyrach y bydd peryglon ar y ffin yn gyfrifoldeb eich prosiect chi a pherchennog eich safle neu dirfeddiannwr cyfagos. Os taw unigolyn neu sefydliad ar wahân i'ch sefydliad chi sy'n gyfrifol am gamau lliniaru, dylech anfon hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith.

Gall anghydfod deillio o sut i liniaru risg - bydd angen ceisio cytuno hyn gyda'r parti arall (nid gweithio yn ei erbyn).

Blaenoriaethu

Dylid blaenoriaethu risg sy'n gyfrifoldeb eich sefydliad chi o safbwynt eu rheoli. Dylid blaenoriaethu risgiau 'uchel iawn' neu 'uchel' a delio gyda'r rhain yn y lle cyntaf, h.y. y rhai sydd wedi sgorio 80 - 100 trwy ddefnyddio'r canllawiau cyfrifo risg sy'n rhan o'r 'Ffurflen Asesu Risg' a gyfeirir ati ar dudalen 1. Gofalwch peidio gor-flaenoriaethu, neu bydd rhai pethau'n aros ar waelod y rhestr, ac ni fyddwch byth yn cymryd camau i'w lliniaru.

Adolygu a diweddarau

Dylech osod amserlen i gynnal adolygiadau a diweddariadau rheolaidd. Gofynnwch am adroddiadau cynnydd rheolaidd gan bwy bynnag sy'n gyfrifol am ddelio gyda pherygl, er mwyn bod yn ymwybodol o ddatblygiadau. Mae hyn yn hynod bwysig wrth olrhain y camau gweithredu sydd eu hangen gan sefydliadau allanol.

Arwyddion diogelwch

Gellir lleihau rhai risgiau i lefel ddiogel trwy ddarparu hysbysiadau diogelwch priodol, e.e. "Llwybr llithrig - cymerwch ofal" neu "Pwll: dylid goruchwyllo plant trwy'r amser". Cofiwch na fydd rhai plant neu oedolion agored i niwed efallai'n deall arwyddion.

Ymwadiad

Ni ddylid defnyddio arwyddion a hysbysiadau Ymwadiad megis "Mynediad ar eich menter eich hunan" neu "Nid yw [Enw eich safle ac awdurdod lleol/cymdeithas rhandiroedd] yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am niwed". Nid yw ymwadiad yn disodli eich dyletsywyd gofal, ac nid ydynt yn rhwymo mewn cyfraith.

Strwythurau

Mae strwythurau nas adeiladwyd yn briodol, neu adeiladau a ddifrodwyd yn beryglus, ac yn gallu denu plant sy'n chwarae ar y safle e.e. i greu ffau. Gall tai gwydr sydd â fframiau a ddifrodwyd cwmpo ar rywun; hwyrach y bydd hen gemegau ac offer miniog mewn siediau; gall plant ddod yn sownd ynddynt. Yn aml, dros amser bydd ymylon miniog peryglus yn datblygu ar haearn rhychog. Gofalwch fod tai gwydr mewn cyflwr da, ac yn ddiogel o safbwynt eu strwythur.

Dylech gael gwared ar beryglon yn rheolaidd ac mewn ffordd ddiogel. Peidiwch â cheisio tynnu strwythurau mwy heb dderbyn cyngor yr awdurdod lleol. Hwyrach y byddwch yn gallu trafod i'r cyngor eu tynnu

lawr neu hwyrach y bydd angen hurio cwmni priodol i wneud y gwaith.

Cyfathrebu dwy ffordd

Hefyd bydd angen system i wirfoddolwyr neu staff adrodd peryglon a digwyddiadau o ddydd i ddydd, e.e. rhestr o gontractwyr ar hysbysfwrdd y safle neu flwch syniadau, sy'n cael ei wagio'n rheolaidd.

Camau dros dro

Os nad yw'n bosib dileu perygl difrifol ar unwaith, dylech ynysu ardal trwy ddefnyddio tâp peryglon priodol a hysbysiadau diogelwch, e.e. "Nid yw'r adeilad hwn yn ddiogel – perygl y gall gwydr gwympto."

Yswiriant

Pam cael yswiriant?

Mae angen yswiriant digonol ar gyfer unrhyw weithgareddau a gynhelir ar y safle, ac yn enw'r sefydliad. Heb yswiriant digonol, gall y prosiect neu staff neu aelodau pwyllgor unigol fod yn atebol o safbwynt ariannol ar gyfer unrhyw hawliadau.

Mae yswiriant yn rhan o, nid yn cymryd lle, trefniadau rheoli iechyd a diogelwch. Ni ddylid defnyddio yswiriant fel esgus i esgeuluso dyletswyddau'r sefydliad.

Dylid trefnu yswiriant yn enw'r sefydliad. Os nad oes gan eich sefydliad statws fel cwmni, gwiriwch gyda'r cwmni yswiriant pwy ddylai llofnodi'r cytundeb, a'r hyn y dylid ei wneud os bydd yr unigolyn dan sylw'n gadael y sefydliad.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu gwestiynau am bolisi yswiriant sydd eisoes mewn bodolaeth at y cwmni yswiriant. Dylai'r cwmni yswiriant hysbysu deiliaid y polisi am unrhyw newidiadau mawr i bolisiâu. Gwiriwch fod gennych bolisi digonol ar gyfer eich holl weithgareddau os bydd y polisi'n newid neu'n cael ei adnewyddu.

Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer hawliadau yn erbyn deiliad y polisi mewn perthynas ag anaf, colled neu niwed a achosir i unrhyw un o ganlyniad i esgeulustod y sefydliad. Cyfrifoldeb deiliad y polisi yw sicrhau fod ganddynt bolisi digonol a phriodol. Bydd y polisi'n nodi swm y polisi, a bydd yn amrywio'n dibynnu ar y cwmni yswiriant a'r polisi, neu'n unol â gofynion perchennog y safle.

Hwyrach na fydd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddigon ar gyfer yr holl weithgareddau ar y safle, neu hwyrach y bydd eithriadau'n berthnasol yn dibynnu ar y polisi a'r cwmni yswiriant. Cysylltwch â'r cwmni i gadarnhau a yw'r polisi'n cynnwys gweithgaredd penodol – a gofynnwch am ymateb ysgrifenedig. Os nad yw'r polisi yswiriant yn cynnwys gweithgaredd, dylid prynu yswiriant ychwanegol.

Gwirfoddolwyr

Mae gan bob sefydliad ddyletswydd gofal tuag at eu gwirfoddolwyr, sy'n cynnwys dyletswyddau aelodau pwyllgor, 'diwrnod gwaith' pan fydd gwirfoddolwyr yn gweithio ar dasg benodol a gwirfoddolwyr o sefydliad allanol sy'n ymweld â'r safle i gyflawni gwaith penodol.

Dylid cynnal asesiad risg cyn gweithgareddau arbennig, a gwiriwch fod eich polisi yswiriant yn eu cynnwys, a gofynnwch am gyngor a hyfforddiant mewn perthynas â rheoli gwirfoddolwyr gan eich CGS.

O safbwynt yswiriant mae agwedd ddwbl ynghlwm wrth wirfoddolwyr. Mae angen yswirio gwirfoddolwyr yn erbyn colled neu anaf a achosir iddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau gwirfoddol, ac mae angen eu hyswirio hefyd ar gyfer unrhyw golled, anaf neu niwed a achosir ganddynt.

Dylid cadarnhau gyda'r cwmni yswiriant fod y polisi(au) cyfredol

yn cynnwys y ddwy agwedd yma - (Cyfrifoldeb Cyhoeddus a/neu Gyflogwr) - sydd gan eich sefydliad, ac sy'n cyfeirio'n benodol at wirfoddolwyr, oherwydd nid yw pob polisi yn derbyn gwirfoddolwyr fel cyflogeion. Os oes angen, dylid trefnu atodiad priodol.

Dyletswydd Gofal y Cyflogwr

Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gofal ychwanegol tuag at eu cyflogeion (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974).

Mae sefydliadau sy'n cyflogi pobl yn eu hawl eu hunain:

- yn gyfrifol o safbwynt cyfreithiol am gynnal asesiad risg ffurfiol, yn unol â Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1999) - cysylltwch â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) am gyngor
- yn gyfrifol o safbwynt cyfreithiol am brynu yswiriant atebolrwydd cyflogwr gorfodol.

Rhentu neu is-osod

Os ydych yn rhentu rhan o'ch safle i grŵp arall, mae'n rhaid trefnu a phrynu yswiriant ar gyfer pob gweithgaredd ar y safle. Dylech ofyn i'r sefydliad sy'n rhentu llain gan eich prosiect am gopi o'u polisi yswiriant nhw.

Mewn perthynas ag unrhyw ddarn o'ch safle sy'n cael ei ddefnyddio gan grwpiau eraill, ond sy'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan eich prosiect chi, eich sefydliad chi sy'n gyfrifol am brynu yswiriant priodol. Gwiriwch fod unrhyw weithgareddau'n cael eu cynnwys yn y polisiâu yswiriant sydd gennych eisoes, neu dylid trefnu polisi newydd priodol.

Adeiladau, strwythurau a chynnwys

Dylid ystyried trefnu yswiriant strwythurol digonol ar gyfer adeiladau/strwythurau sy'n eiddo i'ch sefydliad. Hefyd dylid ystyried

trefnu yswiriant priodol ar gyfer eiddo arall megis cynnwys adeiladau cyffredin, siopau ar y safle a banciau offer.

Gweithgareddau lle mae angen trefniadau rheoli neilltuol

Mae angen asesiadau risg ychwanegol ar gyfer y gweithgareddau a nodir isod, a gall rheoliadau cyfreithiol ychwanegol fod yn berthnasol hefyd. Gwiriwch gyda'r cwmni yswiriant a yw'r polis(iau) sydd gennych yn cynnwys y gweithgareddau hyn. Yn benodol, mae goblygiadau ynghlwm wrth siopau ar y safle ac adeiladau mewn perthynas â diogelwch personol, atal tân a chadw cemegau peryglus.

Atal tân

Mae nwyddau ffermio a garddio'n gallu creu coctel hynod beryglus yn achos tân, e.e. cymysgedd o danwydd, plaladdwyr, deunydd gwely anifeiliaid a gwrtaith. Mae adeiladau ar safleoedd yn darged poblogaidd ar gyfer tanau bwriadol. Gofalwch fod y gwasanaeth tân lleol yn ymwybodol o'r nwyddau sy'n cael eu cadw ar eich safle, a gofynnwch am gyngor penodol ganddynt ar gyfer eich safle mewn perthynas â diffoddwyr tân, gofynion cyfreithiol ac atal tân. Dylech lunio cynllun gweithredu mewn argyfwng. Dylid arddangos rhestr o rifau cyswllt mewn argyfwng fydd yn weladwy i unrhyw wasanaethau brys sy'n cael eu galw i'r safle.

Cadw tanwydd

Bydd y rheoliadau'n dibynnu ar eich lleoliad yn y DU. Cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd, neu'r asiantaeth gyfatebol tu allan i Loegr, am fwy o wybodaeth. Dylid glanhau unrhyw danwydd a gollir ar unwaith. Dylech wisgo menig tafladwy a defnyddio tywod, sarn cathod neu ddeunydd amsugno olew priodol. Cysylltwch â'r cyngor lleol i gael

manyion pellach. Ni ddylech byth golchi olew a gollwyd, na'i dywallt i gyrsiau dŵr neu ddraen.

Offer a banciau offer

Ffordd dda o dorri costau, yw rhannu offer. Mae gan drefnyddion banciau offer ddyletswydd gofal tuag at y bobl sy'n benthg ac yn defnyddio'r offer. Mae angen hyfforddiant diogelwch a thrin a thrafod penodol i ddefnyddio'r rhan fwyaf o offer pweredig, e.e. ni ddylid rhoi benthg llif gadwyn, peiriannau torri coed, strimwyr gyda llafnau metel a thraectorau i unrhyw un heb dystiolaeth o hyfforddiant/trwydded briodol. Hwyrach y bydd colegau lleol yn cynnig cyrsiau hyfforddi byr ac achrededig, neu gallwch ofyn i'r cwmni cyflenwi am gyngor. Peidiwch â phrynu offer cyn delio gydag anghenion hyfforddi. Hefyd mae angen i'r unigolyn sy'n rhoi benthg yr offer fod wedi derbyn hyfforddiant priodol.

Dylech drefnu archwilio'r holl offer llaw a phweredig yn rheolaidd a dylid tynnu allan unrhyw offer di-fin (mae offer di-fin yn beryglus), neu os nad yw'r coes yn sownd neu os ydynt yn ddiffygiol, nes eu hatgyweirio.

Dylech gadw'r offer mewn lle diogel, dan glo. Dim ond unigolion awdurdodedig ddylai gael allwedd i storfa offer, a dylai fod gennych system cadw cofnod/rhestr eiddo cyflawn. Efallai y bydd rheoliadau storio ychwanegol ynghlwm wrth rai offer, e.e. efallai y bydd angen cadw offer sy'n rhedeg ar danwydd mewn caets diogel ar wahân, heb unrhyw ddeunyddiau fflamadwy eraill. Mae TCV yn cyhoeddi llyfr gyda'r teitl 'Toolcare' (gweler Adnoddau).

Sylweddau peryglus

Mae plaladdwyr yn cynnwys chwynladdwyr, gwenwyn llygod mawr, ffwngleiddiadau a sterilyddion pridd. Os ydych yn defnyddio'r rhain ar y safle, bydd gennych ddyletswydd gofal o safbwynt eu cadw, eu defnyddio a chael gwared arnynt mewn ffordd ddiogel.

Y rheoliad cyffredinol ar gyfer delio gydag unrhyw sylweddau peryglus yw COSHH (Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) 2002. Gweler: www.hse.gov.uk/coshh/basics

Dan Reoliadau Rheoli Plaladdwyr (diwygiedig) (COPRA) (1997) mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gwerthu, yn cyflenwi, yn cadw neu'n defnyddio plaladdwr gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu iechyd dynol, creaduriaid a phlanhigion, diogelu'r amgylchedd ac osgoi llygru dŵr.

- Mae'n rhaid gwerthu cyflenwi a marchnata plaladdwyr i'r bobl fydd yn eu defnyddio yn y cynhwysydd a gyflenwyd gan ddeiliad y drwydded gymeradwy, gyda labeli'n unol â'r drwydded gymeradwy.
- Ni chaniateir tywallt plaladdwyr i unrhyw gynhwysydd arall.
- Dylid cadw plaladdwyr tu hwnt i gyrraedd plant, a'u cloi mewn lle diogel.

Mae cyfarwyddyd ar gyfansoddiad, labelu a pheycynnu gwrtaith ar gael ar wefan Gov.uk.

Peidiwch â chadw gwrtaith o fewn 10 metr i gwrs dŵr neu ddraen ar gae er mwyn osgoi nitradau'n gollwng i'r dŵr: dilynwch y codau ymarfer a ddarperir gan y Ffederasiwn Diwydiannau Amaethyddol.

Cysylltwch â'r Gyfarwyddiaeth Rheoli Cemegau am fwy o wybodaeth am reoliadau mewn perthynas â phlaladdwyr.

Cael gwared ar blaladdwyr a gwrtaith

Cysylltwch ag adran gwastraff eich cyngor am wybodaeth ar gael gwared ar blaladdwyr a gwrtaith mewn ffordd ddiogel.

Ni ddylech byth roi plaladdwyr mewn sbwriel cartref i'w losgi, na'u gosod mewn sgipiau na'u tywallt i system draenio neu gwrs dŵr o unrhyw fath.

Mae Pesticide Action Network UK (PAN UK) yn awyddus i weithio i leihau'r defnydd o blaladdwyr. Ar eu gwefan, ceir cyngor garddio

gyda diweddariadau ar newidiadau deddfwriaethol, ymchwil a chynlluniau i leihau defnydd o blaladdwyr.

Mae Garden Organic yn cynnig cyngor a chyhoeddiadau ar ddulliau rheoli plâu heb orfod defnyddio plaladdwyr, a dulliau garddio sy'n lleihau'r tebygolrwydd o ymosodiad gan blâu.

Pyllau a dŵr

Mae pyllau sy'n cael eu cynllunio a'u cynnal yn iawn yn golygu risg mân, ac mae'r buddion niferus i fywyd gwyllt a mwynhad pobl o bob oed yn bywsicach o lawer.

Cysylltwch â'ch Ymddiriedolaeth Natur leol, sefydliadau 'Amphibian and Reptile Conservation' a 'Pond Conservation' ynghylch adeiladu a chynnal a chadw pyllau bywyd gwyllt.

Risgiau pyllau i blant

Plant dan dair oed sydd â'r risg mwyaf o foddï mewn pyllau: mae'r risg o foddï yn lleihau wrth i oedran a dealltwriaeth plentyn o berygl gynyddu. Wrth gwrs dylid goruchwyllo plant trwy'r amser, ac yn enwedig yn ymyl dŵr.

Penderfyniadau am byllau

Y sefydliad sy'n rheoli'r safle sy'n gyfrifol am benderfyniadau mewn perthynas â phyllau, er gall perchennog y tir gael y gair olaf.

Dylid gwneud unrhyw benderfyniadau am byllau gan ystyried cynllun corfforol y safle, lefel mynediad agored, a defnyddwyr. Mae adeiladu pwll ar safle sydd â hawl tramwy cyhoeddus drwyddo yn arwain at broblemau gwahanol o'i gymharu â safle gyda ffens ddiogel.

Maint a siâp

Mae plentyn yn llai tebygol o foddï mewn pwll neu nodwedd dŵr arall sydd â llethrau graddol o'i gymharu â phwll bach gyda llethrau serth. Hefyd mae llethrau graddol yn atal mamaliaid rhag boddi wrth yfed y dŵr.

Dylech geisio creu pwll bas a thymhorol; mae uchafswm dyfnder 30-50cm yn y man dyfnaf yn ddigon ar gyfer bioamrywiaeth. Dylid caniatáu i byllau sychu o gwmpas yr ymylon yn ystod yr haf. Bydd yr ymylon yn fwy gweladwy i blant, ac yn y dŵr bas ger yr ymylon mae'r fioamrywiaeth gyfoethocaf. Yn y gaeaf, gellir defnyddio fflôt i atal y dŵr rhag rhewi, neu hwyrach y caiff plant eu temtio i gerdded ar yr iâ ac ni fydd bywyd gwyllt y pwll yn cael ocsigen.

Yn ddelfrydol, dylai pyllau mawr gael ymyl bas o o leiaf 3m gyda llethr graddol heb fod yn uwch na 1:3. Os bydd lefel y dŵr yn debygol o godi oherwydd glaw neu lifogydd, hwyrach y bydd angen i'r ymyl bas fod dros 3m o led.

Yn dibynnu ar gyfyngiadau'r safle, a'r effaith ar fioamrywiaeth, gellir ystyried addasu graddfa ymylon pyllau mawr i gyd-fynd â'r manylebau uchod.

Plannu

Fel arfer, bydd gan byllau naturiol ymyl meddal lleidiog, gyda chysr, prysgwydd neu blanhigion eraill yn tyfu ar y glannau ac yn y dŵr bas o gwmpas yr ymyl. Gall hyn leihau'r posiblwydd o blant (a chŵn) sy'n rhedeg mewn i'r pwll, felly mae annog y fath tyfiant yn y dŵr bas yn arfer dda.

Gall rhai mathau o dyfiant gorchudd edrych fel tir caled. Felly o safbwynt diogelwch a chadwraeth, dylech gael gwared ar fwyd yr hwyaid a rhedynen y dŵr (Azolla). Dylech reoli glaswellt megis Flote (Glyceria) a gadael crib o gwmpas yr ymyl, heb guddio'r dŵr. Dylech ganiatáu i gylch o blanhigion tal corsennog dyfu o gwmpas y pwll.

Nodweddion dŵr amgen

Os byddwch yn defnyddio pyllau neu gynhwysyddion llai, dylech gynnwys llethrau ar ochr yn y dyluniad, a pheidio caniatáu i dyfiant dyfu a chuddio'r pwll.

Diogelwch

Ni ddylai bod angen ffens isel o gwmpas pwll neu nodwedd dŵr, oni bai y gellir cwmpo i ddŵr dwfn o fan a ddefnyddir yn aml. Mae ffens isel o gwmpas pwll yn tynnu sylw at y perygl, ond ni fydd o reidrwydd yn atal mynediad at y pwll - ateb rhannol yn unig yw, a gall arwain at deimlad diogelwch ffug.

Gall ffens fod yn 'demtasiwn' ychwanegol i chwilfrydedd plant, a bydd yn hawdd dringo dros neu drwy ffens isel. Os byddwch yn gosod ffens, mae'n rhaid ei gwirio a'i chynnal a chadw'n rheolaidd iawn.

Anaml iawn y bydd angen arwyddion rhybudd ar gyfer pyllau - nid yw'r bobl gyda'r risg mwyaf wedi dysgu darllen eto, a dylid eu gwyllo'n ofalus yn ymyl dŵr beth bynnag. Er hynny, os ydy'r dŵr ar ymyl y pwll yn ddwfn (e.e. dros 1.5m) gall achosi risg i bobl o bob oed - os felly, dylech osod arwydd "Perygl - Dŵr dwfn.

Ar gyfer pyllau sy'n rhy ddwfn i oedolyn cerdded i'r dŵr i achub rhywun, bydd angen polyn neu linyon estyn, neu gellir ystyried llenwi'r pwll i'w wneud yn fwy diogel. Trwy osod arwyddion wrth nesáu at bwll, gallwch rybuddio pobl gyda phlant i gadw llygad agosach arnynt.

Hefyd gall grid uwchben wyneb pwll arwain at deimlad diogelwch ffug, a bydd angen ei wirio'n rheolaidd. Ar ôl iddi lawio, gall lefel y dŵr godi digon uchel i fod dros y grid, a gall plant ifanc foddï. Os caiff y grid ei ddifrodi, gall plentyn fynd yn sownd ynddo, neu gropian dano. Mae ROSPA yn gallu cynnig cyngor defnyddiol ar hyn.

Cadw dŵr

Ni ddylid claddu casgen ddŵr i gasglu dŵr glaw neu danciau dŵr neu hen faddon ger tapiau cyffredin i ddal neu storio dŵr, yn y ddaear, oherwydd gall pobl gwmpo iddynt. Hefyd mae'n ddrwg i'r cefn gorfod plygu mor bell â hynny i lenwi caniau dŵr.

Dylech osod unedau storio digon uchel i fod tu hwnt i gyrraedd plant

ifanc - ond cofiwch y gall plentyn chwilfrydig ddefnyddio rhywbeth i ddringo ato, cwmpo i'r dŵr, a methu dod allan wedyn.

Gofalwch nad oes unrhyw sbwriel mewn cynwysyddion, a rhoi caead arnynt os yn bosib: peidiwch â defnyddio drysau pwr, cynfas neu ryw ddeunydd tenau arall lle gall plant gwmpo trwyddynt. Cofiwch gael gwared ar ddŵr marwaidd, oherwydd mae'n golygu risg i iechyd ac nid yw'n fuddiol i blanhigion.

Da byw

Os ydych yn cadw da byw ar eich safle, dylech ystyried cynlluniau ar gyfer argyfwng e.e. tân, llifogydd neu os oes angen lladd anifail ar frys. Mae'n rhaid i'r staff a'r gwirfoddolwyr sy'n cadw'r da byw fod yn gyfrifol ac yn wybodus.

Bydd angen yswiriant addas ar berchnogion rhag ofn y bydd anifail yn crwydro ac yn achosi difrod neu anaf. Mae gofyn cyfreithiol i berchnogion gael dull adnabod ffurfiol ar gyfer rhai anifeiliaid megis 'pasbort ceffyl': cysylltwch â'ch milfeddyg lleol. Mae'n rhaid glynu wrth reoliadau neu gyfyngiadau a gyhoeddir gan DEFRA, ac adrannau cyfatebol Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Dylech arddangos rhestr o fanylion cyswllt llawn, gyda rhifau cyswllt 24 awr yn achos argyfwng.

Mae'r sector amaethyddol wedi cyhoeddi Cod Ymarfer (gweler Adnoddau) i helpu atal milheintiau (sef heintiau a drosglwyddir o anifeiliaid at fodau dynol), sy'n cynnwys arfer dda a gofynion ar gyfer perchnogion sy'n cynnig mynediad at dda byw i ymwelwyr gyda gwahoddiad.

Bywyd gwyllt

Gall safleoedd rhandiroedd fod yn hafan hollbwysig i fywyd gwyllt, ac mae llawer o rywogaethau'n fuddiol i arddwyr: mae'r fronfraith ac amffibiaid yn bwyta gwllithod (ond maent yn gallu cael eu lladd gan belenni gwllithod); mae rhai

blodau penodol yn denu pryfed sy'n bwyta plâu. Mae 'Garden Organic' a 'Pesticide Action Network UK' yn cynnig cyngor ar ddulliau garddio buddiol i fywyd gwyllt.

Nid yw safleoedd sy'n rhy daclus yn fuddiol i fywyd gwyllt. Nid oes rhaid i ardaloedd bywyd gwyllt fod yn llawn tyfiant neu'n flêr. Mae'r RSPB ac Ymddiriedolaethau Natur yn cynnig llyfrau am ddim ar greu gerddi ar gyfer bywyd gwyllt: mae gwefan RSPB yn cynnig arweiniad manwl ar sut i annog bywyd gwyllt yn yr ardd.

Ymhlith peryglon i fywyd gwyllt mae sarn, rhwydi isel dros ffrwythau, defnyddio plaladdwyr (yn enwedig defnydd anghywir neu amhriodol), draeniau agored, pelenni gwllithod, torri a strimio glaswellt, gwydr sydd wedi torri, a choelcerth a adeiladwyd yn barod i'w llosgi. Dylai rheolwyr prosiect sicrhau fod gweithgareddau cyffredin ar y safle yn achosi cyn lleied â phosib o risg i rywogaethau adar, anifeiliaid a chreaduriaid y dŵr sy'n wyllt.

Mae rhai rhywogaethau bywyd gwyllt megis moch daear, rhai adar ysglyfaethus ac ymlusgiaid yn destun mesurau diogelu cyfreithiol penodol o safbwynt eu rheolaeth, a gall fod yn berthnasol i'r DU cyfan. Cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru, Natural England, NatureScotn eu DAERA NI am gyngor mewn perthynas â rhywogaethau a ddiogelir yn eich ardal leol.

Mae'r RSPCA yn cynnig cyngor ar sut i atal a lleihau taenu sarn sy'n peryglu bywyd gwyllt.

Fermin

Mae pla fermin yn fygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd; mae 70 o glefydau'n gysylltiedig â llygod mawr, gan gynnwys Clefyd Weil (leptospirosis), sy'n gallu achosi i fodau dynol farw, trwy ddŵr wedi'i halogi. Dylid osgoi unrhyw arferion sy'n annog plâu a dylid delio gydag unrhyw ddiogyddiad yn ddi-oed.

Mae arwyddion o bla'n cynnwys tyllau, olion, baw a gweld yr

anifeiliaid. Dylid defnyddio cynnyrch rheoli fermin priodol yn unig.

Ni ddylid defnyddio plaladdwyr i reoli fermin. Cysylltwch â Swyddog Rheoli Plâu'r cyngor lleol am gyngor neu i gofnodi problemau.

Risg o haint

Mae risg i fodau dynol o haint wrth drin gwrtaith anifeiliaid. Dylech wastad gwisgo menig wrth ddelio gyda gwrtaith o unrhyw fath. A chofiwch atgoffa staff a gwirfoddolwyr am arferion hylendid sylfaenol, ac i wirio fod pigiadau tetanws yn gyfredol (mae angen pigiad atgyfnerthol bob deng mlynedd). Dylid dilyn Cod Ymarfer Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn enwedig ar unrhyw safleoedd lle cedwir anifeiliaid ac mae ymwelwyr yn dod i'r safle.

Mae gan FfaGC 'Becyn Cymorth Dwylo Glân' y gellir ei lawrlwytho o'r wefan, sy'n cynnwys cyngor ar arwyddion ac enghreifftiau o arwyddion.

Tir halogedig

Nid yw gwir raddau tir halogedig yn hysbys. Os oes gennych bryderon am dir halogedig potensial ar eich safle, dylid cyfeirio at 'A guide for growing on land which may be contaminated' (gweler Adnoddau).

Diogelwch personol

Dylid annog staff neu wirfoddolwyr sy'n treulio amser hir wrth eu hunain ar y safle i fod o ddifrif ynghylch diogelwch personol, a hysbysu rhywun arall lle maen nhw'n mynd, a faint o'r gloch y byddant yn dychwelyd. Dylid sicrhau bod gennych fanylion cyswllt perthynas agosaf, rhag ofn y bydd rhywun yn mynd yn sâl tra bydd ar y safle.

Mae cofrestru a chadw cofnod o anafiadau a digwyddiadau fu bron a digwydd yn y gwaith yn un o ofynion cyfreithiol dan RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013). Gweler gwefan HSE am fwy o wybodaeth.

Cysylltwch â'r heddlu lleol am wybodaeth ynghylch atal troseddau a diogelwch personol.

Coelcerthi

Does dim cyfraith i atal coelcerthi. Mae 'parthau di-fwg' yn cyfeirio at simneiau domestig yn unig. Fodd bynnag, mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd (1990), yn gwahardd achosi niwsans statudol trwy fwg. Hefyd mae'n bosib bod is-ddeddfau lleol a chytundebau gwirfoddol mewn bodolaeth. Gellir lleihau risg a niwsans a achosir gan goelcerthi trwy arfer polisiâu syml, megis caniatáu cynnau coelcerth ar amser penodol yn unig.

Hwyrach y bydd eich polisi yswiriant yn cynnwys rheolau penodol am leoliad, y deunyddiau i'w llosgi, a diffodd coelcerthi.

Digwyddiadau

Mae dyddiau agored, barbeciws a gwerthu planhigion yn gallu codi arian, magu cefnogaeth leol a denu gwirfoddolwyr newydd. Mae gan drefnyddion digwyddiadau ddyletswydd gofal tuag at bawb sy'n bresennol ac yn gweithio mewn digwyddiadau. Bydd angen cynnal asesiad risg penodol cyn digwyddiad i ystyried y canlynol:

- A ddylid cyfyngu a monitro mynediad at unrhyw ran o'r safle neu beryglon eraill, yn ystod y digwyddiad.
- Gofyn cyngor am atal tân, yn enwedig wrth ddefnyddio generadur, barbeciw, offer coginio/gwresogi. Dylech drefnu cyflenwad o ddiffoddwyr tân priodol. Yn ogystal dylid arddangos hysbysiad o weithdrefnau yn achos tân wrth fynedfa'r digwyddiad.
- Ar gyfer digwyddiad mawr, gofawch fod gennych wirfoddolwyr (cymwys) ym maes Cymorth Cyntaf ar gael, neu Ambiwlans Sant Ioan.
- Gofawch fod y cyfleusterau hylendid yn ddigonol ar gyfer y

math o ddigwyddiad dan sylw, yn enwedig toiledau/cyfleusterau golchi dwylo/dŵr yfed/gwerthu bwyd. Gofynnwch am gyngor adran iechyd yr amgylchedd eich cyngor lleol.

- Gwiriwch gyda'r cwmni yswiriant fod eich polisi atebolrwydd cyhoeddus cyfredol yn cynnwys y math o ddigwyddiad, gweithgareddau (gan gynnwys gwerthu), gwaddedigion a staff. Os oes angen, gallwch drefnu yswiriant ychwanegol. Gofawch fod eich holl ddogfennau'n gyfredol.
- Dylech hysbysu'r awdurdod lleol am ddyddiad, amser a'r math o ddigwyddiad ymlaen llaw, a chyn ei hysbysebu.
- Dylech hysbysu'r heddlu a'r warden traffig am ddyddiad, amser a'r math o ddigwyddiad; hwyrach y bydd y ffordd yn brysurach ac y bydd angen i fwy o bobl parcio o gwmpas y safle.

Adnoddau

Asesu risg

Mae'r dogfennau canlynol yn dod gyda'r daflen ffeithiau hon, a gellir eu defnyddio i gwblhau eich asesiad risg:

- Rhestr wirio ar gyfer peryglon ar y safle
- Enghraifft o ffurflen asesu risg

Mae'r rhain ar gael yma: www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit

Pecyn Cymorth FfaGC: Pecyn Cymorth Dwylo Glân

Sy'n cynnwys cyngor ar arwyddion ac enghreifftiau o arwyddion.

www.farmgarden.org.uk/resources/clean-hands-zone-toolkit

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

www.hse.gov.uk

Mae gwefan HSE yn cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol ar:

- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Niweidiol i Iechyd 2002 (COSHH). www.hse.gov.uk/coshh
- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR) sy'n golygu bod cyflogwyr, unigolion hunangyflogedig a phobl sy'n rheoli adeiladau gwaith yn gyfrifol am gofrestru damweiniau difrifol penodol yn y gweithle, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodol. www.hse.gov.uk/riddor

Cod Ymarfer y Diwydiant

A ddatblygwyd gan Bartneriaeth 'Access to Farms' gyda chefnogaeth HSE, mae cod ymarfer 'Preventing or Controlling Ill-Health from Animal Contact at Visitor Attractions' yn cynnig arweiniad synhwyrol, ymarferol a chymesur i'ch helpu cydymffurfio â'r gyfraith a chadw ymwelwyr yn ddiogel.

www.visitmyfarm.org/component/k2/339-industry-code-of-practice

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Mae gwefan HSE yn cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol ar:

- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Niweidiol i Iechyd 2002 (COSHH). www.gov.uk/guidance/manufacturing-and-marketing-fertilisers-if-there-is-no-brexiteal

Pesticides Action Network (PAN)

www.pan-uk.org

Chemicals Regulation Directorate

www.pesticides.gov.uk

Llygredd/Colli olew

Llinell Gymorth Llygredd: **0800 807 060**

Garden Organic

www.gardenorganic.org.uk

Agricultural Industries Confederation

www.agrindustries.org.uk

Da Byw

Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals (RSPCA)

Llinell ffôn i gofrestru creulondeb mewn perthynas ag anifail sy'n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso: **0300 1234999**

Cyngor ar les anifeiliaid:
www.rspca.org.uk/utilities/contactus/reportcruelty

Cyngor ar sut i ddiogelu bywyd gwyllt rhag sarn marwol:
www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/litter

Bywyd gwyllt

Ymddiriedolaethau Natur

www.wildlifetrusts.org

Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid

www.arc-trust.org

Cadwraeth Pyllau

<https://freshwaterhabitats.org.uk>

RSPB

www.rspb.org.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru

<https://naturalresources.wales>

Hyfforddiant

Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol

Am fanylion ar hyfforddiant lleol ar bynciau lechyd a Diogelwch, cymorth cyntaf, rheoli gwirfoddolwyr a phynciau perthnasol eraill.

www.wcva.org.uk

TCV: Gwirfoddolwyr Cadwraeth

www.tcv.org.uk/learning

Adnoddau defnyddiol o ran cyngor ar agweddau Iechyd a Diogelwch ar weithgareddau penodol

Mynediad i gerbydau i'r safle

Mynediad gan wasanaethau cyhoeddus, brys ac ati.

www.hse.gov.uk/event-safety/transport.htm

www.hse.gov.uk/workplacetransport

Reid ar dractor a threlar

www.hse.gov.uk/pubns/ais36.pdf

Parcio

Arwyddion, mynediad ar gyfer cyflenwi nwyddau, manau troi, parcio ar gyfer anghenion arbennig, cymeradwyaeth adran Priffyrdd ac ati.

www.hse.gov.uk/workplacetransport/parking.htm

Mannau chwarae

Ble ydych chi'n bwriadu lleoli'r man chwarae? Ydy'r man chwarae'n weladwy er mwyn atal fandaliaeth, bwlio neu ymwelwyr nad oes eu heisiau? Fydd gennych ardaloedd ac offer ar gyfer oedrannau penodol?

www.hse.gov.uk/entertainment/childs-play-statement.htm

'Managing Risk in Play Provision: Implementation Guide'

Cyhoeddwyd gan Play Safety Forum ac ar gael i'w lawrlwytho yma:
<https://playsafetyforum.wordpress.com/resources/>

<http://letnaturefeedyoursenses.org/home/hosting-visits/safety>

www.rospa.com/play-safety

Offer wedi'u llenwi ag aer

Os ydych yn prynu offer wedi'i llenwi ag aer i'w ddefnyddio ar sail fasnachol, neu os ydych yn hurio un, ydych chi'n gwybod a gafodd ei gynhyrchu'n unol â Safon Brydeinig BS EN 14960 'offer chwarae wedi'i llenwi ag aer - gofynion diogelwch a dulliau profi', ac ydych chi'n gwybod sut i'w osod a'i reoli?

www.hse.gov.uk/entertainment/fairgrounds/inflatables

www.pipa.org.uk

Trampolin

Ydy'r ardal o gwmpas y trampolîn yn rhydd rhag gwrthrychau megis offer chwarae, ffensys a choed, a gyda'r pellter cwmpo lleiaf posib?

www.rospa.com/leisure-safety/advice/trampoline

Diogelwch pyllau

Cyngor ar sicrhau fod gerddi a phyllau'n ddiogel ar gyfer plant. Ydych chi'n cynnig gweithgaredd chwilio pyllau?

www.rospa.com/Leisure-Safety/Water/Advice

Cymorth Cyntaf

Oes angen darparu cymorth cyntaf ar gyfer ymwelwyr â'r ardd/fferm? Pa ddarpariaeth cymorth cyntaf ddylwn ei gael ar gyfer gweithwyr? Nid oes gofyn i gyflogwyr ddarparu cymorth cyntaf ar gyfer y cyhoedd yn ôl Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981. Mae'r HSE yn argymhell yn gryf y dylai cyflogwyr gynnwys y cyhoedd wrth gynnal asesiad cymorth cyntaf, a gwneud darpariaeth briodol yn sgil hynny.

Cyngor sylfaenol ar gymorth cyntaf yn y gwaith:

www.hse.gov.uk/pubns/indg347.pdf

Cymorth cyntaf yn y gwaith – ateb eich cwestiynau:

www.hse.gov.uk/pubns/indg214.pdf

Canllawiau tyfu ar dir sydd efallai'n halogedig

Canllawiau ar gyfer tyfu ar dir halogedig a gynhyrchir gan weithgor 'Grow your own Scotland'. Mae egwyddorion y canllawiau hyn yn berthnasol ym mhob man.

www.farmgarden.org.uk/resources/guide-growing-land-which-may-be-contaminated

Gofalu am offer

Ar gael gan Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth (TCV).

www.conservationhandbooks.com/toolcare

Rhestr o blanhigion gwenwynig a lefelau gwenwyndra

www.rhs.org.uk/advice/profile?pid=524



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Social Farms
& Gardens
Ffermydd a Gerddi
Cymdeithasol 

Ffon: 02920 225 942 /Ebost: wales@farmgarden.org.uk
Website: www.farmgarden.org.uk